NOSON AR LOG

I ddathlu Dydd Gŵyl Dewi eleni mae criw Gwerin Fel ‘Na Mai wedi trefnu noson arbennig yng nghwmni un o fandiau gwerin proffesiynol a mwyaf adnabyddus Cymru sef Ar Log. Cynhelir Noson Cawl a Chân yn Theatr y Gromlech, Crymych ar Nos Wener, Mawrth 1af am 7:00 o’r gloch. Hefyd bydd y delynores leol Marged Rees yn diddanu yn ystod y cawl ac yna bydd Canumas, deuawd werin leol yn perfformio cyn croesawu Ar Log i’r llwyfan. Pris tocyn, yn cynnwys cawl, bara, caws a phice bach yw £20 ac maent ar gael drwy wefan **felnamai.co.uk**. Nid oes bar ond mae croeso i chi ddod â’ch diod eich hunain. Diolch yn fawr iawn i holl noddwyr y noson ac edrychwn ymlaen am noson i’w chofio wrth ddathlu Gŵyl ein Nawddsant.